ADSS Cymru

Leading Social Services in Wales

Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

BLAENORIAETHAU ADSS CYMRU 2025 2028

Cysylltu Gofal Cymdeithasol yn y Gymuned

adss.cymru

Rhagair

Mae'n adeg dyngedfennol i ofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae llywodraeth leol, arweinwyr proffesiynol a'n partneriaid yn cytuno bod yn rhaid i ofal a chefnogaeth o ansawdd uchel gael eu gwreiddio mewn cymunedau lleol, gyda ffocws parhaus ar wella lles a chyflawni canlyniadau personol.

Mae'n rhaid i ni fuddsoddi yn llawer cynharach i gefnogi pobl i fyw'n dda am gyfnod hirach a helpu i osgoi sefyllfaoedd o argyfwng. Mae'r pwysau rydyn ni'n eu hwynebu – demograffig, ariannol, prinder gweithlu, galw a chymhlethdod cynyddol – yn sylweddol, ond felly hefyd gallu'r sector i arloesi, trawsnewid ac arwain.

Mae *Gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* gan Lywodraeth Leol yn ein hatgoffa nad yw gofal cymdeithasol yn wasanaeth ymylol nac yn ychwanegiad i'r GIG. Yn hytrach, mae'n rheidrwydd i gymdeithas sy'n galluogi pobl o bob oed i fyw'n dda ac yn caniatáu iddynt wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'n galw am gyllid cynaliadwy, yr un parch a roddir i iechyd, ac atebolrwydd democrataidd mewn awdurdodau lleol. Mae blaenoriaethau adnewyddedig ADSS Cymru yn cofleidio'r weledigaeth honno wrth ymateb i heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

Yn ei chalon, mae ein gweledigaeth yn glir: rhaid cydnabod gofal cymdeithasol fel conglfaen cymunedau ffyniannus.

Gofal cymdeithasol yw'r lle mae gofal, urddas a gobaith yn dechrau. Mae'n codi pobl yn yr amseroedd anoddaf, yn eu cysylltu â'r gymuned ac yn cerdded ochr yn ochr â nhw pan fydd ei angen fwyaf arnyn nhw. Trwy bob cam o fywyd, dylai fod yn wasanaeth sy'n cefnogi pobl i gyrraedd eu potensial. Gyda'r buddsoddiad ac amgylchedd polisi cywir, gall gofal cymdeithasol fod yn galon Cymru decach, fwy caredig; gan drawsnewid bywydau a diogelu gwead cymunedau Cymru.

Mae Etholiadau Seneddol Cymru yn 2026 yn cynnig cyfle yn y genhedlaeth hon i nodi natur wahanol, annibynnol gofal cymdeithasol yn ymwybyddiaeth y cyhoedd yng Nghymru ac i roi iddo seiliau cynaliadwy ar gyfer y degawd i ddod. Mae'n rhaid i ni fanteisio ar y foment hon i sicrhau buddsoddiad tymor hir, mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol ac ailddatgan fod gofal cymdeithasol yn golofn sylfaenol economi Cymru a'n cymdeithas. Bydd ein blaenoriaethau'n ein helpu i osod llwybr i'r llywodraeth nesaf ei ddilyn, wedi'i seilio ar dystiolaeth, wedi'i ffurfio gan brofiad ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iawn i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Claire Marchant
Cadeirydd, ADSS Cymru

Blaenoriaeth 1

Gweithlu Grymus, Gwerthfawr a Medrus

Gweithlu hyderus, creadigol a thosturiol yw ein hased mwyaf. Y bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yw gyrwyr arloesedd, sy'n darparu canlyniadau o ansawdd uchel ar draws gwasanaethau plant ac oedolion. Eto mae pwysau recriwtio a chadw staff, strwythurau gwobrwyo anghyson a llwybrau gyrfa a hyfforddiant cyfyngedig yn bygwth gwytnwch y sector.

Byddwn yn:

- Ymwreiddio'r Fframwaith Tâl a Dilyniant Cenedlaethol i weithwyr cymdeithasol er mwyn gwarantu cyflog teg, llwybrau gyrfa a'r un parch ag iechyd.
- Hyrwyddo diwylliant o les, cymryd risg yn ddeallus ac ymreolaeth broffesiynol sy'n denu newydd-ddyfodiaid ac yn cadw ymarferwyr profiadol sy'n galluogi pobl i ffynnu'n annibynnol ac mewn ffordd rhyng-ddibynnol.
- Herio a newid y darlun negyddol o ymarferwyr gofal cymdeithasol a gweithio i feithrin amgylchedd mwy cefnogol a chadarnhaol i'r rhai sy'n gweithio yn y maes.
- Hyrwyddo'n gadarnhaol amrywiaeth, creadigrwydd ac arweinyddiaeth y gweithlu gofal cymdeithasol, gan helpu i adeiladu llwybrau gyrfa sy'n cynnal ac yn ysgogi ymarferwyr i mewn i'r degawd nesaf.

Bydd Grŵp Arweinyddiaeth y Gweithlu ADSS yn parhau i weithio i gyd-fynd â'r blaenoriaethau gweithlu cenedlaethol canlynol:

- Strategaeth Gweithlu 10 mlynedd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Sefydlogi Asiantaethau Recriwtio Plant ac Oedolion
- Dileu Elw'r o'r System Plant sy'n Derbyn Gofal
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol [ArWAP]
- Rhaglen Meithrin Nyrsys
- Mwy na Geiriau
- Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol

Blaenoriaeth 2

Atal, Ymyrraeth Gynnar a Gwydnwch Cymunedol

Ni ddylid ystyried gofal cymdeithasol dim ond fel gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty neu fel rhwyd ddiogelwch pan fydd popeth arall yn methu. Mae ei wir werth i'w gael yn yr hyn sy'n digwydd yn gynharach o lawer – wrth atal niwed, cynnal lles ac adeiladu cymunedau cryf, cysylltiedig, lle gall pobl fyw'r bywydau maen nhw'n eu dewis.

Byddwn yn:

- Ail-fframio rôl gofal cymdeithasol, gyda phartneriaid, fel hyrwyddwr lles a byw'n iach, sy'n cadw teuluoedd a chymunedau gyda'i gilydd ac yn lleihau'r angen am wasanaethau adweithiol.
- Byddwn yn eiriol dros fuddsoddiad ychwanegol, hirdymor, wedi ei ddiogelu, mewn gwasanaethau cymorth cynnar yn y gymuned ac wedi eu hintegreiddio fel y gall pobl gadw mewn cysylltiad ac yn iach, yn agosach at gartref.
- Ymwreiddio atal mewn systemau sy'n seiliedig ar le, trwy weithio ar draws llywodraeth leol gyda byrddau iechyd a phartneriaid cymunedol, i integreiddio gwasanaethau fel tai, addysg, hamdden a diwylliant. Pan fydd gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi lles, mae pawb yn elwa.
- Dangos yr enillion o weithredu'n gynnar trwy gasglu data a defnyddio tystiolaeth i ddangos sut mae atal yn lleihau'r galw am wasanaethau acíwt ac ymyriadau drud, gan gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus.

Ein rôl fel arweinwyr yw dod â gwasanaethau cyhoeddus ynghyd o amgylch pobl, nid o amgylch llwybrau a phrosesau. Mae hynny'n golygu hyrwyddo dulliau aml-asiantaeth wedi'u haddasu'n lleol, sy'n blaenoriaethu atal, gyda chefnogaeth ymrwymiad gwleidyddol, atebolrwydd ar y cyd a'r dewrder i symud adnoddau.

Blaenoriaeth 3

Dewis, Rheoli a Diogelu ar Draws Trwy Gydol Bywyd

Mae pawb yng Nghymru'n haeddu byw gydag urddas, gwneud dewisiadau gwybodus a rheoli eu bywydau eu hunain, waeth beth fo'u hoedran neu eu hamgylchiadau. Nid yw cynnal hawliau, cefnogi ymreolaeth, a diogelu rhag niwed yn nodau cystadleuol, maent yn greiddiol i system gofal a chymorth cytbwys a moesegol.

Ar yr un pryd, rhaid i ofal cymdeithasol helpu unigolion, teuluoedd a chymunedau i weithio'n hyderus o fewn yr adnoddau sydd ar gael – gan roi gwerth am arian a chefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn:

- Cefnogi diwygio gwasanaethau plant mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill. Byddwn yn eiriol dros fodel gofal wedi ei gyd-gynhyrchu, ar sail tystiolaeth ac nid-er-elw, gyda chynnydd yn y gallu ar gyfer maethu a lleoedd preswyl.
- Rhoi lleisiau a hawliau wrth ganol yr hyn a wnawn trwy ymwreiddio cyd-gynhyrchiant a sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' yn arfer cyffredin, fel bod penderfyniadau'n adlewyrchu profiad byw a chanlyniadau personol.
- Harneisio technoleg yn ofalus trwy hyrwyddo technolegau digidol a chynorthwyol sy'n cynyddu annibyniaeth, gan warchod ar yr un pryd preifatrwydd a hawl pobl i ymneilltuo.
- Cydbwyso gwarchod ac ymreolaeth. Mae'n bwysig cefnogi cymryd risgiau mewn ffordd hyderus a chadarnhaol sy'n parchu hawl pobl i fyw'n llawn.
- Sicrhau bod diogelu'n ddyletswydd gyhoeddus a rennir. Byddwn yn helpu i lunio dulliau cyd-gysylltiedig, wedi eu goleuo gan drawma ar draws gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a'r system heddlu a chyfiawnder. Rhaid i ddiogelu fod yn gynhwysol, wedi'i sodro yn y gymuned ac yn ymatebol trwy gydol bywyd.



Blaenoriaeth 4

Cyllid a Seilwaith Teg, Cynaliadwy ac Arloesol

Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau, mae'n rhaid i ofal cymdeithasol yng Nghymru gael ei ariannu a'i gyfarparu i ymateb i anghenion y dyfodol. Mae hyn yn golygu sicrhau cyflog teg a chysylltu cyllidebau craidd â chwyddiant. Mae angen i ni hefyd symud i ffwrdd o ddibynnu ar grantiau tymor byr i ddarparu gwasanaethau craidd a statudol. Dylai polisïau a deddfwriaeth genedlaethol newydd gael eu hariannu'n llawn, a rhaid buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith cyfalaf i greu systemau digidol a data modern.

Byddwn yn:

- Gweithio gyda'n partneriaid mewn llywodraeth leol i sicrhau model ariannu fesul nifer o flynyddoedd, wedi ei gysylltu â galw, chwyddiant a'r Cyflog Byw, gan gydnabod bod gofal cymdeithasol yn rhan o'n heconomi sylfaenol.
- Sicrhau buddsoddiad i weithredu atebion gwydn, rhyng-weithredol a fydd yn ffurfio'r llwyfan digidol Cysylltu Gofal newydd.
- Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'n rhwydweithiau partneriaid i sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol i harneisio potensial dadansoddeg data a DA moesegol.

Rhaid i gyllid fod yn ddigonol i gyflawni trawsnewid. Bydd ADSS Cymru'n eirioli dros fodel cyllido newydd rhwng y llywodraeth, darparwyr, cymunedau ac unigolion sy'n galluogi gofal i fod yn gynaliadwy, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ddigidol.

Blaenoriaeth 5

Partneriaethau Strategol sy'n Cyflawni Canlyniadau

Mae partneriaeth wrth wraidd cyflawni i bobl ond mae'n rhaid iddi fod yn bwrpasol, yn atebol ac wedi'i seilio ar werthoedd a rennir. Mae integreiddio er mwyn ei hun yn peryglu erydu cyfraniad unigryw gofal cymdeithasol. Ein nod yw cydweithredu gan ganolbwyntio ar ganlyniadau lle mae rolau'n glir ac mae'r effaith yn cael ei fesur.

Byddwn yn:

- Gweithredu fel cynllunwyr, i 'blethu' sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd llywodraeth leol, y GIG, arloeswyr y trydydd sector a'r sector preifat i fod yn gynigion diasiad, cymunedol.
- Eirioli dros gydraddoldeb statudol ar gyfer parch a pheirianwaith buddsoddiad ar y cyd o dan ddeddfwriaeth gyfredol.
- Cyfundrefnu beth yw ystyr partneriaeth dda – parch at ein gilydd, atebolrwydd clir, cyd-gynhyrchiant gyda thrigolion – a rhannu arfer da trwy rwydweithiau ADSS Cymru a'r Gynhadledd Gofal Cymdeithasol Genedlaethol.

Mae aelodau wedi tynnu sylw at y cyfle i gryfhau integreiddio trwy fynd i'r afael â heriau sylfaenol fel cydweithredu mewnol o fewn sectorau, datblygu metrigau a rennir a sicrhau naratifau cytbwys ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Er mwyn cefnogi hyn, mae'n rhaid i ni hyrwyddo modelau sy'n hybu cydgyfrifoldeb dros atal, llif a lles cymunedol, gan gydnabod gofal cymdeithasol fel partner hanfodol, nid gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty'n unig.